

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bupa Dental Care, Y Rhyl

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 15 Chwefror 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bupa Dental Care, Y Rhyl, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 15 Tachwedd 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Bupa Dental Care, Y Rhyl yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas.
- Mae'r staff yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'w cwestiynau sgrinio COVID-19 a gwelsom y staff yn tywys cleifion i'r ystafelloedd aros a'r deintyddfeydd priodol tra roeddent yn y practis
- Roedd mynediad da i'r practis i bobl anabl. Mae'r holl gyfleusterau clinigol ar y llawr gwaelod. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i bob deintyddfa, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod Bupa Dental Care, Y Rhyl yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau'r polisi rheoli heintiau
- Ystyried gosod y blychau offer miniog yn agos at yr ardaloedd lle y caiff offer miniog meddygol eu defnyddio a sicrhau y caiff y caeadau eu cadw ar gau
- Rhoi prosesau sicrhau ansawdd bob tri mis ar waith yn unol â rheoliadau IR(ME)R 2017
- Defnyddio gwefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a'r pecynnau cymorth ar gyfer gwella a ariennir gan y cynllun Archwilio Clinigol ac Adolygu Cymheiriaid (CAPRO) ar gyfer archwilio yn y dyfodol
- Pob deintydd i drafod canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain fel rhan o'r broses adolygu cymheiriaid
- Sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion ei chofnodi yn eu cofnodion clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd archwiliadau o ansawdd da yn cael eu cwblhau, a oedd yn dangos tystiolaeth o unrhyw newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud o ganlyniad i'r archwiliadau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff a oedd yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon dda i'w cleifion. Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom bob aelod o'r staff, yn staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm

- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Derbyniwyd cyfanswm o 12 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd naw holiadur wedi cael eu cwblhau gan gleifion a fu gyda'r practis am fwy ddwy flynedd, dau a fu'n yno am lai na blwyddyn ac nid oedd un yn siŵr. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

“Parhau i wneud yr hyn y maent wedi'i wneud eisoes”

“Mae'r practis yn dda iawn”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

“Mae angen gwella gwasanaeth y dderbynfa. Mae rhai, ond nid pob un, wedi bod yn eithaf anghwrtais”

“Mwy o staff a llai o achosion o ganslo apwyntiadau”

“Ateb y ffôn, ond rwy'n deall bod y practis yn brysur”

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn diogelu rhag y risg sy'n gysylltiedig â'r feirws, gwelsom fod offer darparu hylif diheintio alcohol wedi cael eu gosod mewn lleoliadau strategol ym mhob rhan o'r practis. Gwelsom fod systemau puro aer yn cael eu defnyddio yn y deintyddfeydd er mwyn atal yr haint rhag cael ei drosglwyddo ymhellach.

Dywedodd y cleifion wrthym, wrth fynd i'r practis, ei bod yn amlwg bod gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau COVID-19 ar waith.

Dyweddod y staff wrthym eu bod yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'r cwestiynau sgrinio COVID-19 a gwelsom y staff yn tywys cleifion i'r deintyddfeydd.

Cadarnhaodd pob un ond dau glaf a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.

Dyweddod y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Dyweddod y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran y driniaeth roedd angen iddynt ei chael.

Dyweddod pob claf a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau.

Dyweddod wrthym fod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y practis. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith a/neu fformat a bod gwasanaeth cyfieithu ar gael iddynt.

Gwelwyd bod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn yr ardal aros. Mae'r 9 Egwyddor yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac maent yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.

Gwelsom fod posteri a thafleuni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol.

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gost triniaethau deintyddol ar gael wrth y dderbynfa a'r ardal aros.

Gwelsom fod gwaith cynllunio ac opsiynau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael y wybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Cadarnhaodd chwe chlaf a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un a dywedodd chwech wrthym nad oedd yn hawdd cael apwyntiad.

Mae'r staff yn y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i'w hapwyntiadau.

Dywedodd wyth o'r 12 claf a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos wrth y brif fynedfa ac roedd wedi'i nodi ar wefan y practis, ar neges peiriant ateb ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod yn fanwl ac o safon foddhaol. Gwelsom dystiolaeth bod opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod gofyn i bob claf gydsynio i driniaeth.

Cadarnhaodd 11 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn unol â'r datganiad o ddiben.

Hawliau pobl

Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Cadarnhaodd 11 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Roedd mynediad da i'r adeilad i bobl anabl. Mae'r holl gyfleusterau clinigol ar y llawr gwaelod. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i bob deintyddfa, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod polisi cwyno ar waith. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwyn, neu sut i fynd ati i godi pryder, wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros.

Gwelsom fod systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i gwynion.

Trafodwyd sut mae'r practis yn mynd ati i geisio adborth cleifion, a wneir drwy anfon e-bost at gleifion ar ôl pob triniaeth yn eu hannog i roi adborth. Gall y cleifion hefyd roi adborth drwy wefan y practis. Caiff dadansoddiad o'r adborth ei drafod gan y tîm deintyddol a'i gyhoeddi ar wefan y practis. Mae hyn yn dangos bod y practis yn casglu adborth ac yn gweithredu arno er mwyn dysgu mwy a gwella'r gwasanaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Wrth gael ein tywys o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Roedd pob claf a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân.

Roedd toiledau ar gael i'w defnyddio gan y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir ar eu cyfer ac roeddent yn lân yn ôl pob golwg.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag amrywiol asesiadau risg, megis tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd pob un o'r asesiadau risg yn gyfredol a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ar waith, a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol/hyfforddiant dadebru brys.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol lechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân ac yn drefnus. Roedd yn cynnwys cyfarpar addas ac roedd yn daclus.

Gwelsom fod y trefniadau dihalogi yn foddhaol. Dangosodd y staff y broses ddihalogi i ni a nodwyd y canlynol gennym

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da.
- Roedd offer yn cael eu storio'n briodol ac roedd dyddiad wedi'i nodi arnynt.
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i ddiogelu'r staff rhag anaf a/neu haint.
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.
- Roedd cynwysyddion storio'r offer yn gadarn ac roedd caeadau arnynt.

Gwelsom fod y gweithdrefnau a oedd ar waith i lanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), sy'n cyd-fynd â chanllawiau WHTM 01-05. Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Roedd rhaglen cynnal a chadw dyddiol ar waith i archwilio'r cyfarpar sterileiddio. Defnyddiwyd cofnodlyfr i gofnodi'r gwiriadau diogelwch awtoclaf ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol. Fodd bynnag, mae'r polisi yn cyfeirio at ganllawiau HTM 01-05, yn hytrach na chanllawiau WHTM 01-05.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan eitemau miniog. Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag y feirws hwn a gludir yn y gwaed.

Gwelsom fod rhai biniau offer miniog (gwastraff peryglus) wedi'u lleoli ar lawr yn y deintyddfeydd gyda'u caeadau yn agored. Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried gosod y blychau offer miniog ger yr ardaloedd lle y caiff offer miniog meddygol eu defnyddio, er mwyn atal unrhyw ollyngiadau ac y dylid cadw'r caeadau ar gau.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR).

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd polisi ar waith ynglŷn ag archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Roedd y staff yn dangos eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt roi gwybod am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaeth.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Cafodd aelod o'r staff ei enwebu i fod yn arweinydd diogelu a gymerodd gyfrifoldeb am sicrhau y cedwir at y polisi diogelu ac y gall roi cyngor ac arweiniad i'r staff ar faterion diogelu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis ac roeddent yn hyderus y byddai'n gweithredu ar unrhyw bryderon.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogaeth a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a /neu wneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Cadarnhawyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio diweddaraf. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliadau sicrhau ansawdd bob tri mis wedi cael eu cwblhau er mwyn gwirio'r cyfarpar pelydr-X, gan gynnwys yr unedau archwiliadau yn y geg, platiau ffosffor a'r broses sganio darluniau. Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi trefniadau archwilio a phrosesau sicrhau ansawdd bob tri mis mewnol ar waith yn unol â rheoliadau 2017 IR(ME)R.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau .

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd yn amlwg bod y staff yn y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod amrywiol archwiliadau wedi cael eu cwblhau, megis croes-heintio, hylendid dwylo, anafiadau offer miniog, cofnodion clinigol a rhagnodi gwrthfotigau. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried defnyddio gwefan AaGIC a'r pecynnau cymorth ar gyfer gwella a ariennir gan y cynllun Archwilio Clinigol ac Adolygu Cymheiriaid (CAPRO) er mwyn gwella ei brosesau archwilio ymhellach. Dylai'r practis gwblhau'r pecynnau cymorth canlynol:

- pecyn cymorth ymbelydredd ìoneiddio
- rhagnodi gwrthfotigau
- pecyn cymorth rhoi'r gorau i smygu.

Dywedodd y staff wrthym fod adolygiad gan gymheiriaid rhwng y staff clinigol wedi cael ei gynnal, sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion.

Rhoddyd adroddiad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol i ni, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd yr adroddiad yn dangos

tystiolaeth o'r ffordd y caiff ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ei reoli a'i asesu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, gan sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac nid oedd modd i neb heb awdurdod eu gweld. Roedd polisi diogelwch data ar waith i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol boddhaol, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd y cofnodion a welsom o bob achos wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd boddhaol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain yn cael eu dilyn gan bob clinigydd yn gyson. Rydym yn argymhell y dylid trafod y canllawiau fel rhan o'r broses adolygu cymheiriaid. Nodwyd gennym hefyd nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i gofnodi yn y nodiadau clinigol. Rydym yn argymhell y dylid cofnodi dewis iaith y cleifion yn eu cofnodion clinigol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Rheolwr y practis, a gafodd ei benodi'n ddiweddar, oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Yn syth ar ôl yr arolygiad, gwnaethom dderbyn cais i gofrestru rheolwr y practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Roedd llawer o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers cryn amser ac roedd perthynas dda rhyngdynt.

Gwelsom fod y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd pob aelod o'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon dda ac roedd hyn yn cael ei ategu gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau. Gwelsom fod y staff wedi llofnodi'r polisiau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Rhoddyd copi o'r datganiad o ddiben i ni a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith i bob un ohonynt. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

Y Gweithlu

Gwelsom fod gan y staff gontract cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cwmpasu hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff hefyd yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Bupa Dental Care, Y Rhyl

Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bupa Dental Care, Y Rhyl

Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai rheolwr y practis sicrhau bod y polisi rheoli heintiau yn cyfeirio at WHTM 01-05.	WHTM 01-05	Mae sôn am WHTM 01-05 ym Mholisi Rheoli Heintiau Bupa Dental Care, ond dim ond yn gryno. Disgwylir i Lawlyfr a Pholisi Rheoli Heintiau Bupa Dental Care gael eu hadolygu ar 23 Ionawr ac rydym yn derbyn bod angen i ni gyfeirio at y WHTM 01-05 ar gyfer ein practisau yng Nghymru a chaiff y llawlyfr a'r polisi eu diwygio i adlewyrchu hyn.	Tîm Llywodraethu Clinigol Bupa Dental Care	6 mis
Dylai'r practis ystyried gosod y blychau offer miniog ger yr ardaloedd lle y caiff offer miniog meddygol eu defnyddio a sicrhau y caiff y caeadau eu cadw ar gau.	Rheoliadau iechyd a diogelwch (offer miniog mewn gofal iechyd) 2013	Mae pob blwch offer miniog wedi'i osod lle y caiff offer miniog meddygol eu defnyddio a chedwir y caeadau ar gau.	Richard Leigh	Wedi'i gwblhau

<p>Dylai'r practis roi trefniadau archwilio a phrosesau sicrhau ansawdd bob tri mis ar waith yn unol â rheoliadau IR(ME)R 2017.</p>	<p>Rheoliadau IR(ME)R 2017</p>	<p>Mae Bupa Dental Care yn defnyddio Fframwaith Llywodraethu Clinigol sy'n cysylltu pob polisi, yn darparu tystiolaeth i fodloni safonau rheoleiddiol ac sy'n hysbysu'r practisau o'r holl archwiliadau sydd angen eu cynnal a pha mor aml y dylid gwneud hynny. Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol newydd ar ffurf drafft ar gyfer Archwiliadau Clinigol a fydd yn nodi pob archwiliad ar gyfer y practis a'r clinigwyr, a'r mis y dylid eu cwblhau a pha mor aml y dylid gwneud hynny. Caiff yr archwiliadau eu cynnwys yn ein fframwaith llywodraethu clinigol a chaiff y canlyniadau unigol a chyffredinol y practis eu cysylltu â'r safonau perthnasol fel tystiolaeth, gyda chynlluniau gweithredu integredig i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd y nodwyd bod angen eu gwella.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae archwiliadau a phrosesau sicrhau ansawdd yn unol ag IR(ME)R 2017 yn cael eu rhagnodi ym Mholisi Radiograffi Bupa Dental Care ac mae'r broses Archwilio bellach wedi cael ei hadolygu a'i gwella yn unol â'r polisi</p>	<p>Stuart Piper</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
---	--------------------------------	--	---------------------	-----------------------

<p>Dylai'r practis ddefnyddio gwefan AaGIC a'r pecynnau cymorth ar gyfer gwella a ariennir gan CAPRO ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol. Dylai'r practis gwblhau'r pecynnau cymorth canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pecyn cymorth ymbelydredd ìoneiddio • rhagnodi gwrthfotigau • pecyn cymorth rhoi'r gorau i smygu. 	<p>Addysg a Gwella Iechyd Cymru</p>	<p>Dylai'r practis ddefnyddio gwefan AaGIC a'r pecynnau cymorth ar gyfer gwella a ariennir gan CAPRO ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol.</p> <p>Mae pob un o bractisau Bupa Dental Care yn trosglwyddo i Fframwaith Llywodraethu Clinigol newydd Bupa Dental Care ar hyn o bryd, sy'n ein galluogi ni i nodi meysydd i'w gwella a'i ddefnyddio fel offeryn llywodraethu byw a pharhaus i fonitro'r weithred o fodloni safonau rheoleiddiol, arfer gorau ac i nodi gwelliannau a gweithredu arnynt. Byddwn yn sicrhau bod y fframwaith llywodraethu clinigol yn cwmpasu pob agwedd y mae'r Matrics Aeddfedrwydd a'r Ddeintyddiaeth a'r Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET) yn ei hyrwyddo er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y gorau o'r offer hyn ac yn dysgu ohonynt.</p>	<p>Stuart Piper</p>	<p>12 mis</p>

Dylid trafod canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain fel rhan o'r broses adolygu cymheiriaid.	Canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain	Trafodir canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain fel rhan o'r broses adolygu cymheiriaid.	Stuart Piper	3 mis
Dylai dewis iaith y cleifion gael ei chofnodi yn eu cofnodion clinigol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 20	Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi yn y cofnodion clinigol ac mae pob aelod o'r tîm yn ymwybodol o'i phwysigrwydd	Stuart Piper	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Stuart Piper

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 22/12/2022